CYNGOR CYMUNED BETWS

2005 06 Mehefin Cofnodion

CYNGOR CYMUNED BETWS

Fe gynnal cyfarfod misol y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Betws ar Ddydd Mercher y 8fed o Fehefin 2005 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Cynghorwr Loreen Lewis (Cadeirydd), Henadur D Arnallt James, Cynghorwyr Graham Vaughan, Menna Roberts, Carwyn James, E Audrey Jones, Delyth Richards, Peter Cowell, June Gunter a Cynghorwr Sir John D Evans.

YMDDIHEURIAD: Cynghorwyr Anne Sizmur, Annette Price a Keith Rees.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Roedd Cynghorwr Sir John D Evans wedi datgan ei fod yn aelod o'r Llywodraeth Llys Prifysgol Abertawe.

1. I DDARLLEN AG YSTYRIED Y COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHELIR A'R Y 11eg O FAI 2005.
Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhelir ar y 11eg o Fai 2005.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Safle Gwe Cymunedol.
Dywedodd Cynghorwr Peter Cowell bod rhaid talu'r ffi aelodaeth o £25 i Cymdeithas y Teithwyr cyn bod nhw'n rhoi cyfrifiadur i Cyngor Cymuned Betws. Cytunodd y Cynghorwyr i dalu'r ffi. Roedd Cynghorwr Peter Cowell hefyd wedi esbonio i'r Cynghorwyr bod rhaid yswirio'r cyfrifiadur, neu ni fydd yn cael i ddosbarth a sefydlu. Cadarnhaodd Cynghorwr Peter Cowell ei fod wedi siarad gyda chwmni yswiriant ei dy, ac yn anffodus nid yw nhw'n gallu yswirio'r cyfrifiadur, mae ef wedi dweud wrth Cymdeithas y Teithwyr ac mae nhw'n edrych i mewn i'r mater.
PENDERFYNWYD: I dalu'r ffi aelodaeth of £25 i Cymdeithas y Teithiwr.

Gofynnod Cynghorwr Menna Roberts beth oedd y Cyngor am alw'r safle gwe? Cafodd 'Betws' ei awgrymu, a chytunodd y Cynghorwyr.
NODWYD: Y pwynt uchod.

Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi dodi copïau o'r agendâu ar gofnodion o fis Ionawr i fis Ebrill 2005 ar y we.
NODWYD: Y pwynt uchod.

2.2 Clwb Criced Betws.
Roedd Cynghorwr Loreen Lewis wedi dweud wrth y Cynghorwyr bod y batiau criced a brynodd y Cyngor Cymuned Betws yn cael I rhoi I Glwb Criced Betws dydd Mercher nesaf yn eu noswaith cyflwyniad.

Dywedodd Cynghorwr Sir John D Evans wrth y Cynghorwyr fod arian ar gael o Gyngor Sir Caerfyrddin i glybiau/cymdeithasau ym modd o gist cymuned. Mae Cynghorwr Sir John D Evans wedi dod a hyn at sylw Clwb Criced Betws, ond i wneud cais mae rhaid iddynt gael cyfansoddiad. Yn anffodus nid oes cyfansoddiad gan Clwb Criced Betws.

Dywedodd Cynghorwr Sir John D Evans ei fod wedi ysgrifennu at Clwb Criced Betws, i ddweud fod gwirfoddolwyr Dyfed, sydd yn Stryd y Brenin, Caerfyrddin yn fodlon ysgrifennu cyfansoddiad am ddim i nhw. Awgrymodd Cynghorwr June Gunter bod Cyngor Cymuned Betws yn ysgrifennu at Glwb Criced Betws yn ail adrodd bod arian ar gael o Cyngor Sir Caerfyrddin.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Clwb Criced Betws.

2.3 Warden Cymunedol.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi trefni fod y Warden Cymunedol yn dod i siarad gyda'r Cynghorwyr ar y 14eg o fis Medi am 6.30 (cyn cyfarfod misol Cyngor Cymuned Betws).
NODWYD: y pwynt uchod.

2.4 Betws Yn Eu Blodau.
Roedd Cynghorwr Loreen Lewis wedi adrodd yn absenoldeb Cynghorwr Anne Sizmur bod Tai Woodstock wedi rhoi 3 cwpan am y gystadleuaeth Betws yn eu Blodau.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.5 Adwy o Rheolaeth Cynllunio, Tipio heb awdurdod - Tir ger Llys Hafard, ymaith i barc Coedwig, Betws.
Roedd y Clerc wedi adrodd nid yw hi wedi derbyn gohebiaeth wrth Cyngor Sir Caerfyrddin ynglin â chanlyniad yr ymchwiliad.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.6 Ymweliad a safle Gwaith Glo Betws.
Dywedodd Cynghorwr Peter Cowell ei fod wedi bod yn siarad gyda Mr Hugh Towns o Gyngor Sir Caerfyrddin, as mae Mr Towns yn fodlon dangos y Cynghorwyr o amgylch safle Gwaith Glo Betws, a fydd yn gallu dangos yr ardal pryder, yn ddarpar ei bod nhw'n defnyddio hewl syn mynd at LBS. Gofynnodd Cynghorwr Loreen Lewis os oedd y Cynghorwyr a diddored i gael ymweliad ar safle? Cytunodd y Cynghorwyr. Awgrymodd Cynghorwr Delyth Richards fod y Clerc yn ysgrifennu at Hugh Towns i ofyn pryd yw ar gael.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Hugh Towns.

2.7 Casgliad Gwair yn Parc Heol Y Felin.
Darllenodd y Clerc ateb roedd hi wedi derbyn wrth Anna Owens Cynghorwr Iechyd a Diogelwch, Cyngor Sir Caerfyrddin, mae hi wedi bod i ymweld â Parc Heol Y Felin ac nid oedd perygl iechyd a diogelwch yna, a chadarnhaodd bydd hi'n ymweld ar barc yn gyson.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.8 Cais Cynllunio - E09981 - Adeiladaeth of Priffordd Pen Ffordd.
Gofynnodd Cynghorwr Graham Vaughan os oedd y Clerc yn gallu esbonio ac egluro yn fanwl y safle yngly^n ar gais cynllunio uchod.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn danfon copi o'r cais cynllunio i Gynghorwr Graham Vaughan.

2.9 CADW.
Ddarllenodd y Clerc yr ymateb derbyniodd hi wrth CADW, a dywedo'n nhw fod Cymuned Betws wedi cael i archwilio diwethaf yn 1996/97. Amgaeo'n nhw manylion o adeiladau ??????? yn Betws. Eglwys ??????????? ar Heol Betws a Pont Aman.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.10 Etholiad.
Darllenodd y Clerc ymateb wrth Cyngor Sir Caerfyrddin sydd wedi penodedig fod trefn gyfreithiol fod pleidleisiau post yn cael eu rhoi i staff gorsaf pôl, sydd yn ei dro yn rhoi nhw i mewn i'r amlen swyddogol derbyniad i gwaredi i'r Swyddog Arolygwr ar gau y pôl. Roedd yw awgrym am ddefnyddio'r Clwb Rygbi fel gorsaf pledi leision yn cael I ystyried yn Mis Mehefin

a bydd yn rhoi gwybod I Gyngor Cymuned Betws. Gofynnod Cynghorwr Graham Vaughan os deler y Cyngor Cymuned ofyn caniatâd I'r Clwb Rygbi yn gyntaf? Dywedodd Cynghorwr June Gunter taw dim on awgrym oedd hyn a fydd y Cyngor Sir yn cynnwys hyn pan fydd nhw'n gwneud penderfyniad.
NODWYD: y pwynt uchod.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Llythyr wrth T. Richard Jones (Betws).
Darllenodd y Clerc llythyr roedd wedi derbyn wrth T.Richard Jones. Dywedodd Cynghorwr Peter Cowell ei wedi wedi ysgrifennu at Martin Cook, i ofyn pa dir sydd ar gael i Fetws ddefnyddio? Nid oedd yr wybodaeth ar ddod. Penderfynodd y Cynghorwyr danfon copi o'r papur trafodaeth i T.Richard Jones a hefyd copi i Mr R Williams, Cynllun Boyer, Caerdydd.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn danfon copïau o'r papur trafodaeth i T.Richard Jones a Mr R Williams, Cynllun Boyer.

Hefyd penderfynodd y Cynghorwyr ddanfon copi o'r papur trafodaeth i Martin Cook.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn danfon copi o'r papur trafodaeth i Martin Cook.

3.2 Awdurdod Glo - Perygl Arwynebedd yn Gwaith Glo Rhydaman Rhif. 1
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi derbyn copïau o lythyron sydd wedi cael eu danfon i Gyngor Sir Caerfyrddin a T.Richard Jones wrth Awdurdod Glo. Esboniodd Cynghorwr Peter Cowell i'r Cynghorwyr ei fod yn pryderu oherwydd nid yw'r siafftau wedi cael eu diogelu yn iawn.
NODWYD: y pwynt uchod.

3.3 Mae'r ohebiaeth ganlynol wedi eu cydnabod ac mae'r cynnwys wedi eu nodi.
1. Cyngor Sir Caerfyrddin
1.1 Cofnodion o'r cyfarfod Grw^p Llywio Rheilffordd Dyffryn Aman a gynhaliwyd ym mis Mai.
1.2 Ymgynghori ynghylch datblygu strategaeth Parcio integredig ar gyfer Sir Gaerfyrddin.
1.3 Gwaith ailosod cylfert ger Tycoch, Heol Argoed, Betws.
1.4 Dalen Newyddion ar Cartrefi Gofal i'r Henoed - rhoddwyd i Gynghorwr June Gunter.
1.5 Cynllun Addysg Gymraeg Sir Gar - Drafft ymgynghorol 2005 - rhoddwyd i Gynghorwr Delyth Richards.
2. Cynulliad Cenedlaethol Cymru
2.1 Cyfarfod cyhoeddus Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
3. Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Canol Cymru - Dalen Newyddion.
4. Grw^p Lleol Gyngor Aman - Agenda a chofnodion.
5. Copi of llythyr sydd wedi cael I ddanfon I Gyngor Sir Caerfyrddin gan Mrs H Corbett.

4. MATERION CYNLLUNIO.
Cytunwyd y ceisiai isod gan Cyngor Cymuned Betws:-
E/10243 - Bwriadu gwneud estyniad
Pant Y Banwen, ger Heol Maescware
Mr Roger Lewis

E/10092 - Bwriadu gwneud estyniad gegin
28 Heol Pentwyn, Betws
Mrs Griffiths

E/10196 - Un Byngalo preswyl
69 Heol Y Cyrnol, Betws
Datblygiadau Amanda Morris prin

E/10195 - Estyniad I'r tafarndy
Pinwydden Scotch, Heol Y Mynydd, Betws

Pinwydden Scotch

Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr am y gwrthwynebi roedd Cynghorwr Sir John D Evans wedi cyflwyno i Gyngor Sir Caerfyrddin yngly^n â amrywiad o gyflwr rhif 3 o caniataid cynllunio C6/120 i adael cynnyrch cael eu ffordd at offer golchi glo. Hefyd dywedodd y Clerc ei bod hi wedi derbyn gohebiaeth wrth Cyngor Sir Caerfyrddin yn dweud wrth y Cyngor fod ymweliad o safle gwaith glo Glyncywarch ar y 14eg o fis Mehefin am 10.45 ac wedyn mae'na gyfeiriad yn y siambr yn Neuadd Y Sir, Caerfyrddin am 2.00. Dywedodd Cynghorwr Peter Cowell ei fod am fod yn bresennol yn yr ymweliad. Dywedodd Cynghorwr Arnallt James a Menna Roberts fod nhw hefyd am fod yn bresennol yn yr ymweliad. Awgrymodd Cynghorwr Peter Cowell efallai bod Cynghorwr Anne Sizmur a diddordeb hefyd.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn cyflwyno cais ysgrifenedig at Pennaeth Cynllunio ar frys oherwydd mae rhaid i'r Adran Cynllunio dderbyn y cais ysgrifenedig 2 diwrnod cyn yr ymweliad o'r safle.

5. CYFRIFON.
Rhoddwyd y Clerc y cyfrifon am y flwyddyn hyd at y 31ain o Fawrth 2005. Dywedodd wrth y Cynghorwyr bod yr ymchwiliad mewnol wedi eu cwblhau, ac mae'r ymchwiliad allanol wedi eu trefnu am y 29ain o Gorffennaf 2005. Arwyddodd y Cadeirydd yr Adroddiad Blynyddol a'r llyfr cyfrifon.

Dywedodd Cynghorwr Peter Cowell ei fod wedi addurno ei llawr isaf, oherwydd mae'r cyfrifiadur syn cael ei rhoi gan Cymdeithas y Teithwyr yn cael i sefydlu yn ei dy. Gofynnod os oedd hawl ganddo i gael yr arian yn nol wariodd ef ar ddefnydd?
PENDERFYNWYD: I dalu Cynghorwr Peter Cowell y swm o £20.00.

1. Cyflog a Lwfans y Clerc £783.51
2. Treth Incwm y Clerc £165.79
3. Ffi aelodaeth Cymdeithas y Teithwyr £25.00
4. Cynghorwr Peter Cowell £20.00
5. 6 x Trei o Flodau £20.00
CYTUNWYD: I dalu'r biliau uchod.

Gofynnodd Cynghorwr Loreen Lewis i'r Cynghorwyr os gall Cyngor Cymuned Betws prynu Camera digi tal, oherwydd fydd yn ddefnyddiol am y Safle Gwe Cymunedol. Penderfynodd y Cynghorwyr i brynu Camera digi tal gwerth tua £140.00.
PENDERFYNWYD: bod Cynghorwyr Loreen Lewis a Peter Cowell yn edrych i mewn i brynu Camera digi tal.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd Sarsiant Malcolm Heath a PC Kevin Jones y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Dywedodd PC Kevin Jones fod 43 o droseddau yw nodi am fis Mai, wedi ei wneud o'r canlynol:-
2 ymosod, 1 damwain troseddwr i gerbyd, 1 arf atgas, 30 eiddo cyffuriau, 1 lladrad, 1 eiddo arwres a 7 eiddo eraill Mas o'r 43 troseddau, mae 39 wedi cael ei ddatgelu.

Roedd Sarsiant Malcolm Heath wedi rhoi adroddiad manwl yngly^n ar wallgofi ar Comin Betws. Dywedodd taw y ffordd i fynd ymlaen yw grynhoi cynllun digwyddiad, rhag ofn fydd hyn yn digwydd eto.

Roedd Cynghorwr Sir John D Evans wedi canmol yr Heddlu ar y ffordd roedden nhw wedi trafod a dal gafael ar y gwallgofi. Roedd Cynghorwr Sir John D Evans yn pryderu am bobl yn byw wrth eu hun ac am bobl henoed. Dywedodd ei fod wedi ysgrifennu i'r Prif Weithredwr o Gyngor Sir Caerfyrddin a hefyd i Heddlu Dyfed Powys yn gofyn am gyfarfod cyswllt, i sefydlu ffordd ymlaen.

Gofynnodd Cynghorwr Menna Roberts sawl carcharau oedd wedi cael i gadw yn Gorsaf Heddlu Rhydaman? Dywedodd PC K Jones wrth y Cynghorwyr fod 24 carcharau wedi cael i brosesu yn Rhydaman ac aeth y gweddill i Lanelli a Chaerfyrddin.

Dywedodd Cynghorwr John D Evans wrth PC Jones fod cerbydau yn cyflymu ger Heol Maescware rhwng 7-9 yn y bore a 5-7 yn y nos, dywedodd ei fod wedi ysgrifennu llythyr ir Heddlu.

Dywedodd PC Jones ei fod wedi danfon e bost i'r adran draffig yn gofyn os gallwn nhw edrych ar Heol Y Felin a Cae Mawr yngly^n â cherbydau yn cyflymu ar yr hewlydd hyn, ac mae'n mynd i siarad gyda nhw yn unigol.

NODWYD: y pwynt uchod.

7. ADRODDIAD CYNGHORWR SIR
Roedd Cynghorwr Sir John D Evans wedi adrodd ar y canlynol:-
1. Gwaith Glo Betws

2. Parc Penrhiw - Dywedodd ei fod wedi ysgrifennu at Cyfarwyddwr Gwasanaeth Technoleg yngly^n â llydanu hewl Parc Penrhiw. Dywedodd Cynghorwr Sir John D Evans deler fod llwybr addas cael ei adeiladu, oherwydd mae yn ganran uchel o blant ysgol yn defnyddio'r hewl. Awgrymodd Cynghorwr Peter Cowell fod Cyngor Cymuned Betws yn cefnogi'r Cynghorwr Sir.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Cyfarwyddwr Gwasanaeth Technoleg yn cefnogi llythyr y Cynghorwr Sir.

8. ADRODDIADAU.
8.1 Ffordd Cerddediad o Heol y Cyrnol, Betws i Ysgol Betws.
Dywedodd Cynghorwr Peter Cowell fod Pennaeth Ysgol Betws wedi dynesu ef, mae hi wedi ysgrifennu at yr Awdurdod Addysg yngly^n â phryderu gyda'r ffordd cerddediad. Dywedodd Cynghorwr Peter Cowell wrth y Cynghorwyr fod y ffordd cerddediad o Heol y Cyrnol i Ysgol Betws yn cynnal gwael, mae eisiau atgyweirio ffens yr afon , mae eisiau glanhau y ffordd cerddediad o fes cw^n a hefyd hoffi fe gael arwydd 'dim mes y cw^n' cael i ddodi ar y mynediad.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Awdurdod Addysg yn cefnogi cais y Pennaeth.

9. PAPUR TRAFODAETH.
Esboniodd Cynghorwr Peter Cowell fod y papur wedi cael ei baratoi gan Cyfrwng Datblygiad Cymraeg wrth yr wybodaeth roedd Cyngor Cymuned Betws wedi paratoi, ac mae eisiau danfon hyn i'r staff cynllunio perthnasol syn ystyried cymeradwyaeth cynllunio'r pentref.
Cytunodd y Cynghorwyr i ddanfon copïau o'r papur trafodaeth i:-
1. Mr Dave Gilbert, Cyfarwyddwr Ailenedigaeth, Cyngor Sir Caerfyrddin.
2. Mr Eifion Bowen, Pennaeth Cynllunio, Cyngor Sir Caerfyrddin.
3. Mr Hugh Towns, Swyddog Cynllunio Gwastraff a Mwyn, Cyngor Sir Caerfyrddin.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn danfon copïau o'r papur trafodaeth ir uchod.

10. UNRHYW FATER ARALL.
10.1 Wythnos Galwedigaeth.
Dywedodd Cynghorwr June Gunter wrth y Cynghorwyr bod wythnos galwedigaeth o 13eg i 19eg o fis Mehefin, ac mae sylw wedi cael eu dodi yn ffenestr siop Cynghorwr Audrey Jones.
NODWYD: y pwynt uchod.

10.2 Tir tu ôl i Caemawr, Betws.
Dywedodd Cynghorwr Peter Cowell wrth y Cynghorwyr ei fod wedi derbyn llythyr wrth Jonathan Fearn o Gyngor Sir Caerfyrddin, sydd wedi esbonio efallai fod y tir tu ôl i Caemawr,

Betws, ar gael i Cymuned Betws. Awgrymodd Cynghorwr Peter Cowell bod Cyngor Cymuned Betws yn gofyn i'r Cynghorwr Sir John D Evans i gario allan ymchwiliadau gyda Jonathan Fearn.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Cynghorwr Sir John D Evans.

10.3 Rhoddion.
Dywedodd Cynghorwr Peter Cowell wrth y Cynghorwyr bod y rhoddion a rhoddwyd yngly^n â chynhaliaeth y fynwent yn cael eu dodi i mewn i gronfa ganolog ac nid yw nhw yn cael i wario ar y fynwent yn Betws. Penderfynodd y Cynghorwyr yn y dyfodol i rhoi gyflwr ar y rhoddion, bydd y rhoddion yn cael i rhoi gyhyd a, tra bod y Parchedig yn gallu sicrhau bydd y rhoddion dim ond yn cael i wario ar fynwent yn Betws.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Parchedig Delyth Bowen.

10.4 Fferm Gwynt ar Mynydd Betws
Adroddodd Cynghorwr Loreen Lewis yn absenoldeb Cynghorwr Anne Sizmur bod Grw^p Cadwraeth Mynydd Betws wedi gofyn i'r Cyngor Cymuned am ei benderfyniad yngly^n â fferm gwynt ar Mynydd Betws. Penderfynwyd yn cyfarfod blaenorol fod Cyngor Cymuned Betws yn erbyn unrhyw genhedliad gwynt ar fynydd Betws.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Grw^p Mynydd Cadwraeth Betws.

10.5 Amddiffyniad Gwledig Cymru.
Adroddodd Cynghorwr Loreen Lewis fod cynrychiolydd o Amddiffyniad Gwledig Cymru wedi bod mewn cysylltiad gyda Cynghorwr Anne Sizmur, mae nhw'n fodlon dod i edrych o amgylch Betws. Awgrymodd fod Cynghorwr Loreen Lewis a Cynghorwr Arnallt James yn mynd o amgylch y pentref gyda'r swyddog.
NODWYD: y pwynt uchod.

10.6 Meddygfa'r Cyngor.
Trafododd yr uchod a benderfynwyd bod Cynghorwyr Audrey Jones a Delyth Richards yn cynal meddygfa'r Cyngor mis nesaf yn dechrau am 6.30 ar ddydd Mercher y 13eg o Mis Gorffennaf.
NODWYD: y pwynt uchod.